



## Adroddiad Corff Llywodraethol Cysgod y Foel i'r rhieni am y flwyddyn 2017/18



Ffederasiwn o Ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn sy'n ysgolion Gynradd Sirol (Babanod/lau) ydi Cysgod y Foel. Maent yn ysgolion ddyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol.

### Swyddogion Llywodraethol

Cadeirydd	Rhys Llwyd Davies Yr Efail Llandderfel	Medi 2017 -
Clerc	Siân Llwyd Pale Bach, Maerdy, Corwen	

Cynhelir etholiadau nesaf am riant lywodraethwyr ym Medi 2021

Nid yw'r Corff wedi cynnal Cyfarfod rhieni yn unol ag Adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ystod 2017/18

### Aelodau'r Corff Llywodraethol

Ffion Jones	Cynrychiolydd Rhieni	Medi 2021
Gwennan Jones	Cynrychiolydd Rhieni	Medi 2021
Delyth Thomas	Cynrychiolydd Rhieni	Medi 2021
Sian Jones	Cynrychiolydd Rhieni	Medi 2021
Daniel Roberts	Staff Dysgu	Medi 2021
Rhian Llwyd Dafydd	Staff Dysgu	Medi 2021
Dafydd Roberts	Llywodraethwr Awdurdod Lleol	Medi 2021
Elwyn Edwards	Llywodraethwr Awdurdod Lleol	Medi 2021
Siân Edwards	Llywodraethwr Cymunedol	Medi 2021
Aeron Prysor	Llywodraethwr Cymunedol	Medi 2021
Rhys Llwyd Davies	Llywodraethwr Cymunedol	Medi 2021
Catrin Gwynfor	Llywodraethwr Cymunedol	Medi 2021
Eifion Wyn Davies	Cyngor Cymuned	Medi 2021
Angharad Davies	Sylwedyddion	Medi 2021
Lisa Jones	Sylwedyddion	Medi 2021
Bethan Emyr Jones	Pennaeth	Medi 2021

## Staff yr ysgolion

Ffridd y Llyn		Bro Tryweryn	
Mrs Bethan Emyr Jones	- Llawn amser	Mrs Bethan Emyr Jones	- Llawn amser
Mrs Siân Angharad Jones	- Llawn Amser	Mrs Heledd Lynch	- Llawn Amser
Mrs Haf Wyn Pritchard	- .8	Mr Daniel Roberts	- Llawn Amser
Miss Rhian Llwyd Dafydd	- Llawn Amser	Mrs Lowri Parry	- Cymhorthydd CS: 30 awr
Mr Riki Wyn Rowlands	- Cymhorthydd CS: 30 awr	Mrs Meleri Thomas	- cymhorthydd cyfnod mamolaeth Mrs Parry
Miss Siân Llwyd	- Cymhorthydd: 16 awr	Miss Grisial Williams	- cymhorthydd CA2 (contract blwyddyn)
Mrs Eirwen O'Callaghan	- Cymhorthydd CS: 5 awr	Mrs Eiliw Davies	- Ysgrifenyddes
Miss Siân Llwyd	- Ysgrifenyddes	Mrs Rhian Morris	- Cogyddes/clerc cinio
Mrs Gwenda Morris	- Cogyddes	Mrs Angela	- Cynorthwywraig coginio
Mrs Eluned Griffiths	- Cynorthwywraig coginio/clerc cinio	Mrs Elin Jones	- Gofalwraig
Mrs Eirwen O'Callaghan	- Cynorthwywraig coginio	Mrs Beryl Jones	- Gofalwraig
Mrs Beryl Jones	- Gofalwraig		

  

Dosbarth		Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen
CS	bore	RhD 19	RhD 19	RhD 19	RhD 19	RhD 25
CS	pnawn	RhD 19	RhD 19	HP 25	RhD 19	RhD 25
BI 2/3/4	bore	HP 18	HP 18	HP 18	HP 18	RhD/SAJ
BI 2/3/4	pnawn	HP 18	HP 18	SAJ 31	ES 18	RhD/SAJ
BI 5/6	bore	SAJ 17	SAJ 17	SAJ 17	ES 17	SAJ 31
BI 5/6	pnawn	SAJ 17	SAJ 17	SAJ 31	SAJ 17	SAJ 31

  

Cyfanswm Niferoedd Disgyblion: 56

Cyfanswm Niferoedd Disgyblion: 44 – yn cynnwys 4 meithrin

### Dyddiadau y Tymhorau

Tymor yr Hydref	3 Medi 2018 – 21 Rhagfyr 2018
Tymor y Gwanwyn	7 Ionawr 2019 – 12 Ebrill 2019
Tymor yr Haf	29 Ebrill 2019 – 22 Gorffennaf 2019

### **DYDDIADAU GWYLIAU 2018 – 2019**

Hanner Tymor: 29 Hydref – 2 Tachwedd 2018  
Gwyliau'r Nadolig: 24 Rhagfyr 2018 – 4 Ionawr 2019  
Hanner Tymor: 25 Chwefror – 1 Mawrth 2019  
Gwyliau'r Pasg: 15 - 26 Ebrill 2019  
Calan Mai: 6 Mai 2019  
Hanner Tymor: 27 – 31 Mai 2019  
Gwyliau'r Haf: 23 Gorffennaf – 30 Awst 2019

### **ORIAU DYSGU'R YSGOLION**

Cyfnod Sylfaen: 23.66 awr yr wythnos  
C.A.2: 24.50 awr yr wythnos

**SESIWN Y BORE:** 9.00 – 12.00  
**SESIWN Y PRYNHAWN:** 1.10 – 3.30  
**CYFRIFOLDEB AM Y PLANT:** 8.50 – 3.40

### **Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau Ffridd y Llyn**

#### **Cyfnod Sylfaen**

##### **Sgôr cyfartalog:**

Mae llythrennedd a rhifedd yn parhau yn flaenoriaeth ar gyfer 2018-19, a byddwn yn parhau i dargedu unigolion a gweithredu grwpiau ymyrraeth dyddiol i sicrhau bod pob unigolyn yn parhau i gyrraedd ei darged.

	Deiliant 5+			
	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
DCS	66.7%	100%	100%	100%
laith	66.7%	100%	100%	100%
Mathemateg	66.7%	100%	100%	100%
PCLI	100%	100%	100%	100%

#### **Cyfnod Allweddol 2**

##### **Sgôr cyfartalog:**

Mae canlyniadau'r ysgol yn amrywiol iawn dros dreigl pum mlynedd a hynny oherwydd bod un plentyn mewn criw bach yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r ganran.

	L4+					
	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18
DPC	100%	84.6%	100%	100%	91.7%	100%
Saesneg	100%	92.3%	100%	100%	91.7%	100%
Cymraeg	100%	92.3%	100%	100%	91.7%	100%
Mathemateg	100%	92.3%	100%	100%	91.7%	100%
Gwyddoniaeth	100%	100%	100%	100%	91.7%	100%

### **Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau Bro Tryweryn**

#### **Cyfnod Sylfaen**

##### **Sgôr cyfartalog:**

Mae llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaeth ar gyfer 2018-19 ac ein nod yw parhau gyda'r safon uchel.

	Deiliant 5+			
	2015	2016	2017	2018
DCS	100%	100%	100%	100%
laith	100%	100%	100%	100%
Mathemateg	100%	100%	100%	100%
PCLI	100%	100%	100%	100%

#### **Cyfnod Allweddol 2**

##### **Sgôr cyfartalog:**

Mae canlyniadau'r ysgol yn gyson uchel ac ein nod yw parhau gyda'r safon uchel.

	L4+			
	14-15	15-16	16-17	17-18
DPC	100%	100%	100%	100%
Saes	100%	100%	100%	100%
Cym	100%	100%	100%	100%
Ma	100%	100%	100%	100%
Gwy	100%	100%	100%	100%

### Grwpiau Targed:

Rydym yn tracio disgyblion i sicrhau cynnydd ac adnabod unigolion sydd angen ymyrraeth pellach gan ddefnyddio rhaglen INCERTS, canlyniadau profion ac asesiadau athrawon i greu grwpiau targed.

Rydym yn defnyddio cymorthyddion yn effeithiol i dargedu unigolion, parau a grwpiau ac yn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ADY a MATH.

Targedau Personol: Rydym wedi gosod targed ysgol, targed dosbarth a thargedau unigol ar gyfer pob plentyn yn yr ysgol. Mae'r targedau unigol yn plethu gyda'r system asesu ar gyfer dysgu.

### Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Corff Llywodraethol

#### Cysylltiadau â'r Gymuned

Yr ysgolion yw'r both olwyn y try addysg arni ac mae'n bwysig fod yr ysgolion yn chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned, ac i'r gymuned hithau chwarae ran amlwg ym mywyd yr ysgolion. Dylai'r ysgolion a'r gymuned gyd-ymdreiddio. Dylid gwneud yn fawr o'r gynulleidfa barod a gynigir gan y gymuned leol, a dylai'r plant weld fod iddynt hwythau eu lle yn y gymdeithas gyflawn.

Rydym yn credu bod yr ysgolion yn rhan annatod o'r gymuned ac yn helpu'r plant i feithrin parch at ei thraddodiadau a'i phobl.

Dylid ystyried sut mae gweithredu'r amcanion cymunedol drwy

- feithrin plant i adnabod a pharchu eu treftadaeth leol.
- annog arbenigedd o'r tu allan i sicrhau addysg eang a chytbwys, un sy'n ddiddorol a chydlynus, yn integredig a gwahaniaethol.
- Ddatblygu'r berthynas glos a chartrefol sy'n bodoli mewn cymdeithas wledig a manteisio ar y cyfle i oedrannau cymysg gyd-weithio â'u gilydd. Fel dywed Llwyd o'r Bryn yng nghân Cymdeithas y Llawrdyrnu yn Sarnau:  
"Mewn cymdeithas lawen iach,  
Neb rhy fawr a neb rhy fach."
- Cysylltu'r plant a'u bro a'r gymdeithas gan mae'r fro yw libart addysg y plentyn, a'r bobl cyswllt addysgol yw'r athrawon, y rhieni, yr ymwelwyr a'r brodorion.

Byddwn yn cyflawni'r uchod drwy ddarparu gwasanaethau Diolchgarwch a chyngherddau Nadolig, drwy wneud gwaith dyngarol er mwyn helpu pobl a sefydliadau sydd mewn angen. Byddwn yn meithrin cyswllt diwylliannol drwy gefnogi eisteddfodau lleol, creu ymwybyddiaeth o'r traddodiadau sydd yn berthnasol i'r ardal gymunedol. Gwahoddir arbenigwyr i arddangos hen gelfi ac adrodd hanesion. Mae ymweld â manau o

bwys yn bwysig iawn hefyd. Rydym yn defnyddio talentau lleol i gryfhau gweithgareddau addysgol megis gwau a chrosio, arlunio a chrefftau gwledig, fel bo'r doniau yn cael eu gwerthfawrogi a bod dilyniant yn y gymuned i'r oesoedd a ddêl. Byddwn hefyd yn defnyddio yr adnoddau parod sydd ar gael i greu ymwybyddiaeth o fenter a busnes a dealltwriaeth o reoli ffatrioedd, ffermydd, siopau ac yn y blaen. Bydd hyn yn fodd i'r plant a'r athrawon greu cyswllt buddiol ag oedolion ac arbenigwyr yn eu meysydd.

Rhaid meithrin y cysylltiadau uniongyrchol ag unigolion er mwyn ehangu a chyfoethogi agweddau ar y cwricwlwm drwy wahodd awduron, crefftwyr, rhieni ac arbenigwyr i'r ysgolion.

### **Y Siarter Iaith yn Ffridd y Llyn**

Mae'r Gwe terfynol yn galonogol iawn gyda cynnydd i'w weld ymhob agwedd bron. Os nad oes cynnydd, mae'r agwedd honno wedi ei chynnal. Mae'n braf gweld fod cynnydd yn nefnydd y disgyblion o'r Gymraeg yn y cyfnodau anffurfiol a bod mwy o blant yn siarad Cymraeg adref.

Mae'r cynnydd yn y disgyblion sydd yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg i'w weld yn sylweddol fwy ac mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r sylw mae grwpiau Cymraeg yn ei gael yn wythnosol yn yr ysgol. Byddwn yn ceisio cael mewnbwn tebyg ar wyllo rhaglenni Cymraeg y flwyddyn nesaf.

Mae'r ffaith fod agwedd y disgyblion tuag at bwysigrwydd yr iaith hefyd yn ganlyniad i fachu ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o bethau am Gymru a'i phobl yn yr ysgol.

Cynhaliwyd gweithgareddau Ynni Da a'r cwis s4c gyda gweddill y dalgylch. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar agwedd y disgyblion tuag at gerddoriaeth Gymraeg a rhaglenni Cymraeg ar S4C.

### **Y Siarter Iaith yn Bro Tryweryn**

Mae'r Gwe terfynol yn galonogol iawn gyda cynnydd i'w weld ymhob agwedd bron. Os nad oes cynnydd, mae'r agwedd honno wedi ei chynnal.

Mae'r cynnydd yn y disgyblion sydd yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg i'w weld yn sylweddol fwy ac mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r sylw mae grwpiau Cymraeg yn ei gael yn wythnosol yn yr ysgol. Byddwn yn ceisio cael mewnbwn tebyg ar wyllo rhaglenni Cymraeg y flwyddyn nesaf.

Mae'r ffaith fod agwedd y disgyblion tuag at bwysigrwydd yr iaith hefyd yn ganlyniad i fachu ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o bethau am Gymru a'i phobl yn yr ysgol.

Cynhaliwyd gweithgareddau Ynni Da a'r cwis s4c gyda gweddill y dalgylch. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar agwedd y disgyblion tuag at gerddoriaeth Gymraeg a rhaglenni Cymraeg ar S4C.

### **Gweithgareddau yn y Gymuned (Ffridd y Llyn)**

**Gwasanaethau boreol:** Bydd Dr Owain Edwards o Goleg Y Bala yn annerch y plant yn fisol.

**Gwasanaethau boreol:** Bydd Parch Hywel Edwards yn annerch y plant yn fisol

**Heddlu yn y Gymuned:** Bydd PC John yn ymweld â'r ysgol yn dymhorol i drafod cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch personol gyda'r plant.

**Datblygu Mentergarwch:** Gwahoddwyd aelodau o'r gymuned i siarad am eu gwaith.

**Eisteddfod Llandderfel:** Bu plant yr ysgol gyfan yn paratoi gwaith cartref ar gyfer eisteddfod Llandderfel. Roedd eu gwaith yn werth ei weld, a chafodd pob un ohonynt ganmoliaeth gan y beirniaid.

**Bore Coffi Macmillan:** Cawsom fore bendigedig a gwasanaeth arbennig i godi ymwybyddiaeth y plant o waith Nyrsus Macmillan a chasglwyd £97.21

**Diwrnod Plant Mewn Angen:** Roedd pawb yn werth eu gweld yn eu dillad a chasglwyd £66.20 ar gyfer apêl Plant Mewn Angen.

**Dylunio Cardiau Nadolig:** Casglwyd £58

**Ffair Nadolig:** Cynhaliwyd noson goffi yn yr ysgol a chasglwyd £638.77 o arian i gronfa'r ysgol.

**Eisteddfod Sarnau:** Bu plant yr ysgol gyfan yn paratoi gwaith cartref ar gyfer yr Eisteddfod.

**Noson Goffi:** Cynhaliwyd noson goffi yn yr ysgol a chasglwyd £98.50 o arian i gronfa'r ysgol.

**Gwasanaeth Diolchgarwch:** Casglwyd £72.42 tuag at Ysbyty Maelor.

**Cyngerdd Nadolig:** Casglwyd £447.40.00 at gronfa'r ysgol wrth werthu tocynnau.

#### **Ffrindiau'r Ffridd**

- Ffair Haf – casglwyd £503.95
- Stondin Siopa Hwyr – casglwyd £332.10
- Ras Wyau – casglwyd £179.60

### **Gweithgareddau yn y Gymuned (Bro Tryweryn)**

**Gwasanaethau boreol:** Bydd Dr Owain Edwards o Goleg Y Bala yn annerch y plant yn fisol.

**Gwasanaethau boreol:** Bydd Parch Hywel Edwards yn annerch y plant yn fisol

**Heddlu yn y Gymuned:** Bydd PC John yn ymweld â'r ysgol yn dymhorol i drafod cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch personol gyda'r plant.

**Eisteddfod Talybont :** Bu plant yr ysgol gyfan yn paratoi gwaith cartref ar gyfer eisteddfod Talybont. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gystadlu ar y llwyfan bob blwyddyn hefyd.

**Macmillan:** Cafwyd bore coffi at elusen Macmillan a chodwyd £385.55.

**Diolchgarwch:** Codwyd £103.61 tuag at yr Ambiwlans awyr yn ein gwasanaeth yn Capel Talybont.

**Diwrnod Plant mewn angen** - Roedd pawb yn werth eu gweld yn eu dillad a chasglwyd £63.00 ar gyfer apêl Plant Mewn Angen.

**Diwrnod Achub y Plant** – Daeth y disgyblion yn eu siwmpwr Nadolig a chodwyd £32.00.

**Ffair Nadolig:** Codwyd swm o £1246.60 yn ein Ffair Nadolig.

#### **Cronfa'r ysgol**

- Stodin gacennau - £194.00
- Dyfalu gwerth y nwyddau yn y fasedd siopa yn Co-Op £242.29

## Cyswllt ag Ysgolion Eraill

### Partneriaeth Ysgol i Ysgol

**Ffederasiwn Cysgod y Foel** – Mae Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tryweryn wedi eu huno. Golyga hyn bod un Pennaeth ac un corff llywodraethol rhwng y ddwy ysgol, a'r nod ydi parhau i ddatblygu'r cyd-weithredu sydd eisoes yn bodoli rhwng y ddwy ysgol.

**Ysgol Ffridd y Llyn, Bro Tryweryn, Beuno Sant a Bro Tegid** - byddwn yn cyfarfod yn wythnosol i drafod agweddau o'r CDY, i graffu ar waith ac i drafod datblygiadau yn ein cynllunio.

**Cyfarfodydd Pontio Ysgolion Dalgylch Penllyn** - Lluniwyd pwyllgor i drafod a chynllunio dulliau pontio rhwng holl ysgolion y dalgylch ar gyfer yr ysgol gydol oes. Y prif nod yw creu cysylltiau rhwng Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn cyn i'r dair ysgol uno ym Medi 2019. Nod arall yw creu cysylltiadau gydag ysgolion O.M. Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn. Mae arian grant wedi ei neilltuo ar gyfer dod a disgyblion yr holl ysgolion at ei gilydd i greu prosiectau celf, ac mae'n debyg y bydd gweithdai pwrpasol yn cychwyn ym mis Medi.

**Cyfarfod pontio cynradd-uwchradd** - Cyfarfodydd pontio wedi canolbwyntio ar dasgau rhifedd.

## Trefniadaeth a Pholisiau

### Polisiau'r Ffederasiwn

Rydym yn adolygu pob un o bolisiau'r ysgol yn barhaol i sicrhau eu bod yn gyfredol. Dyma'r polisiau sydd angen eu hadolygu'n flynyddol:

Amdiffyn Plant

Derbyn a Mynediad

Cwricwlwm

Grym Rhesymol

Gwrth Fwlio

Iechyd, Diogelwch a Lles

Iaith Weithredol

### Crynodeb o rai o bolisiau'r Ffederasiwn

## PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**Weithiau byddwn yn teimlo y byddai o fantais i blentyn dderbyn sylw i oresgyn problemau penodol. Gall hyn fod yn drefniant tymor hir neu dros dro. Fel arfer byddwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sylfaenol megis darllen, ysgrifennu, sillafu a mathemateg, gyda'r plentyn yn cael cymorth (gan amlaf mewn grŵp bychan) gan aelod o staff ar ôl trafodaeth hefo'i rieni. Os oes angen, byddwn yn gofyn am gymorth asiantaethau eraill megis y Seicolegydd Addysg, defnyddio Unedau Dalgylchol yn rhan-amser a.y.y.b. Weithiau gosodir plentyn ag anghenion dwys ar ddatganiad ar ôl trafod gyda'r rhieni. Caiff gwaith plant mwy abl a thalentog ei gynllunio'n ofalus i'w hystyn.**



Cydllynydd Anghenion Addysgol Ychwanegol – Mrs Siân Angharad Jones  
Llywodraethwr â chyfrifoldeb am Anghenion Addysgol Ychwanegol  
– Mrs Siân Edwards

**Crynodeb o'r Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Nod**

Cyn belled ag sydd bosibl, gweithiwn i gynnig cyfle teg i bob plentyn gael datblygu yn emosiynol, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn addysgol i gael manteisio ar yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Canllawiau**

1. Cyflawni gofynion Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002.
  2. Defnyddio Meini Prawf Mynediad Gwynedd ac 'Asesu Da' i gynllunio'r ddarpariaeth orau posibl.
  3. Dilyn trefn o gyfnodau:
    - 'Gweithredu gan yr Ysgol' – disgyblion gydag anghenion tymor byr
    - 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' – disgyblion gydag anghenion tymor canolig
    - 3\* - disgyblion gydag anghenion tymor hir
    - Datganiad – disgyblion gydag anghenion dwys
- Bydd y cyd-gysylltydd yn cysylltu ag arbenigwr o'r tu allan fel bo'r angen. Bydd gan bob plentyn sydd ar un o'r cyfnodau hyn Gynllun Addysg Unigol (CAU).
4. Sicrhau cynnwys y rhieni a'r disgyblion yn y trefniadau asesu ac adolygu anghenion disgyblion unigol, gan gynnwys y CAU.
  5. Cyn belled ag y bo'n bosibl, bydd pob disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol.
  6. Gall rhieni sydd a chŵyn gysylltu a'r canlynol yn y lle cyntaf— Y Cydgysylltydd ADY / y Pennaeth / cynrychiolwyr y rhieni ar y Corff Llywodraethu / Llywodraethwr penodedig ADY

**Casgliad**

Dylid sicrhau fod pob plentyn sydd ag anhawster dysgu yn cael pob chwarae teg i ymgynraedd i'w lawn botensial. Drwy wneud hyn bydd y plant gydag anhawster yn cael y gofal sy'n ddyledus iddynt, boed hynny yn gorfforol, yn feddyliol neu un synhwyrol.

**Adnabod, Asesu a Darparu Anghenion Dysgu Ychwanegol**

1. Yn dymhorol byddwn fel staff yn trafod cynnydd pob plentyn. Os oes pryder yn cael ei fynegi, byddwn yn ystyried rhoi'r disgybl ar gyfnod tymor byr, sef Gweithredu gan yr Ysgol. Os nad yw'r broblem neu'r pryder yn ddigon i roi'r disgybl ar gam pellach, yna byddwn yn ceisio datrys yr anghenion o fewn y dosbarth trwy waith gwahaniaethol. Os bydd y pryder yn parhau neu'n cynyddu, byddwn yn gosod y disgybl ar gam pellach, sef Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.
2. Mae athrawon yr ysgol yn defnyddio asesu fel rhan naturiol o'u dysgu dyddiol. Mae cynllunio gwersi yn digwydd fel bod gweithgareddau yn cael eu hasesu – weithiau bydd y gweithgareddau yn wahaniaethol o ran eu natur, dro arall yr ymateb i'r un math o dasg sy'n wahaniaethol. Trwy'r dulliau hyn, ac o bryd i'w gilydd, brofion safonedig, fe obeithir bod pob plentyn yn derbyn y sylw haeddiannol, ac yn datblygu i'w llawn botensial, ac

y byddwn yn gallu dod yn ymwybodol o unrhyw broblem neu bryder a all godi yn fuan iawn.

3. Mae trefniadau ar gael i adolygu'r ddarpariaeth ADY os y bydd disgybl ar unrhyw gam yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol.

4. Mae barn rhieni yn bwysig iawn wrth adnabod ac mewn unrhyw asesiad o blentyn. Rhoddir bwys ar eu barn a cheisir eu cyd-weithrediad ym mhob achos.

5. Pan fo gofyn, mae barn asiantaethau eraill hefyd yn hanfodol, a cheisir gyd-weithrediad yr asiantaethau perthnasol wrth ganfod ac asesu disgyblion ag ADY.

6. O dderbyn disgyblion o unrhyw ysgol arall, fe geisir sicrhau bod gwybodaeth am y disgybl yn cyrraedd yr ysgol. Yn yr un modd, fe fydd yr ysgol hon hefyd yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol i unrhyw ysgol lle bydd plentyn yn trosglwyddo iddi.

### **Disgyblion ag Anableddau**

#### **Plant ag Anghenion Corfforol**

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i groesawu pob plentyn, sicrhau eu diogelwch, eu galluogi i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol a chael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gennym Gynllun Hygyrchedd a Chydraddoldeb i Bobl Anabl.

#### **Cynllun Cydraddoldeb Anabledd**

Mae'r Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd yn ddyletswydd newydd o fewn Deddf Gwahaniaethu (DDA) 2005, ble mae'n ofynnol i ysgolion gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod disgyblion, staff, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a phobl eraill anabl sy'n defnyddio'r ysgol yn cael eu trin yn gyfartal.

### **Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (Addysg Bywyd)**

**Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, disgwylir i Gyrff Llywodraethol ysgolion**

**ystyried os dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar. Os ydynt o'r farn y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm, mae gofyn iddynt lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o'u polisi o safbwynt cynnwys a threfniadaeth. Penderfynodd y Corff Llywodraethol y dylai Addysg Rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm yn Cysgod y Foel (ABaCh).**

**Pwrpas ac amcanion Addysg Rhyw yn yr ysgol gynradd yw:**

- **dysgu am gylch bywyd**
- **cadw'r plant yn ddiogel trwy eu helpu i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion a phlant eraill**
- **helpu'r plant i ddod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd moesol**
- **helpu'r plant siarad am faterion sy'n ymwneud â'r corff a pherthnasedd heb embaras**
- **cychwyn paratoi'r plant am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud yn y dyfodol**
- **dysgu plant i barchu eu hunain ac eraill**

**Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o'r elfennau hynny nad yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2008.**

**Os oes gan riant/gofalwyr bryder, mae croeso i chi ddod i'r ysgol i drafod gyda'r Pennaeth.**

**Mae croeso i chi ymgynghori â'r Pennaeth os oes gennych unrhyw gwestiynau ar y mater neu os hoffech weld y polisi Addysg Rhyw.**

### **Adolygu Strategaethau'r Ysgol**

Gweledigaeth Pennaeth, Staff a Llywodraethwyr Cysgod y Foel:

**Creu ysgol hapus sy'n rhoi plant yn gyntaf, ysgol sy'n parchu ac ymestyn pob unigolyn i'w lawn botensial.**

### **Amcanion Cyffredinol y Ffederasiwn**

#### **1. Awyrgylch ac Ethos**

Sefydlu awyrgylch hapus a gweithgar yn seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal, athrawon a disgyblion, a disgyblion a'i gilydd, fydd yn galluogi plentyn i ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu hunan-hyder ynghyd â hunan-ddelwedd bositif fel y bo'n parchu ei hun heb fod yn drahaus. Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri yn eu bywyd a'u gwaith ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.

#### **2. Cwricwlwm**

Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal drwy ddarparu ar ei gyfer gwricwlwm perthnasol, gwahaniaethol, eang a chytbwys gan ddehongli gofynion y Cwricwlwm Cymreig yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau yr Awdurdod Addysg Lleol. Galluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau cwricwlaidd.

#### **3. Dwyieithrwydd**

Sicrhau bod Polisi Iaith ddiwygiedig yr Awdurdod yn cael ei weithredu'n effeithiol yng nghyd-destun y Cwricwlwm Cenedlaethol. Sicrhau y datblygir gallu pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod Addysg.

#### **4. Trefniadaeth**

Sicrhau cyfle i ddatblygu athrawon sy'n ymestynedig eu proffesiynoldeb a'u hyfforddi yn ôl gofynion ac anghenion y disgyblion, y cwricwlwm a Deddfau Addysg 1986 ac 1988.

#### **5. Datblygiad Staff**

Sicrhau cyfle i ddatblygu athrawon sy'n ymestynedig eu proffesiynoldeb a'u hyfforddi yn ôl gofynion ac anghenion y disgyblion, y cwricwlwm a Deddfau Addysg 1986 ac 1988.

#### **6. Adeiladau**

Ceisio gwella'r adeiladau a'r defnydd ohonynt a sicrhau ei fod yn ateb gofynion iechyd a diogelwch; hybu glanweithdra tu mewn a thu allan i'r ysgolion a chreu amgylchfyd ysgol ddiddorol.

### **Blaenoriaethau Cynllun Gwella'r Ysgolion 2018/19**

- Blaenoriaeth 1: Teithio tuag at Cwricwlwm i Gymru.
- Blaenoriaeth 2: Codi Safonau Rhifedd ymhellach drwy wau y pedwar diben i'r pedwar cam addysgu – cyflwyno sgiliau, cyfleoedd i ymarfer sgiliau, rhesymu a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd bob dydd ac ateb cwestiwn mawr yn draws-gwricwlaidd.
- Blaenoriaeth 3: Codi safonau llafar a chystrawen ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg drwy ddefnyddio egwyddorion Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu gweithgareddau creadigol ac arloesol.
- Blaenoriaeth 4: Datblygu cymhwysedd digidol pob plentyn drwy ymgyswrtu â disgwyliadau'r fframwaith a chynllunio'n bwrpasol i'w mabwysiadu

### **Presenoldeb 2017/18**

Ysgol Bro Tryweryn – 96.6%      Ysgol Ffridd y Llyn 96%

Mae'r Corff yn cadw llygaid ar y presenoldeb ond nid ydynt yn teimlo bod angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd.

### **Chwaraeon**

Rhown gryn werth ar weithgareddau corfforol a'u cyfraniad i ddatblygiad corfforol, addysgol, cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn. Ceisiwn ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau i ymateb i ddi-ddordebau pob plentyn. Ein nod yw dysgu'r plentyn sut i gyd-chwarae fel rhan o dîm, grŵp, pâr, ac fel unigolyn, hybu gweithgarwch corfforol a ffyrdd iach o fyw, meithrin agweddau cadarnhaol - parchu chwarae teg, cystadlu'n onest, dygymod â llwyddiant a methiant, sicrhau arferion diogel drwy ymateb i gyfarwyddiadau, cydnabod a dilyn rheolau, defnyddio offer yn ddiogel a.y.y.b.

Byddwn yn chwarae gemau cyfeillgar a chystadleuol gan gynnwys rygbi, pêl droed, pêl rwyd, criced, rygbi'r ddraig, athletau, rownderi a.y.y.b. a chymryd rhan mewn gemau tîm lleol yn y dalgylch a rhai'r Urdd.

Bethan Emyr Jones

Rhagfyr 2018